

## Eisteddfod Llanarth 2018

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanarth yn neuadd y pentref ar ddydd Gwener Hydref 5ed a Sadwrn Hydref 6ed. Bu disgyblion ysgol gynradd Llanarth yn cystadlu yn yr adran agored yn gyntaf ac roedd safon eu perfformiadau i'w canmol yn fawr . Llongyfarchiadau i Deian Rees ar ennill y gadair am ei gerdd arbennig am yr Hydref. Martha Vobe gwnaeth ennill cwpan her Siân a Nia i'r cystadleuydd gyda'r nifer uchaf o farciau ac ar ddiwedd yr holl gystadlu fe ddaeth tai Llywelyn a Glyndŵr yn gyfartal . Roedd y beirniaid sef Mrs Margaret Wilson (llefaru) a Mrs Enfys Hatcher-Davies (cerdd) yn fawr eu canmoliaeth o ymdrechion yr holl blant - da iawn chi. Beirniaid yr adran agored ar y prynhawn Sadwrn oedd Mr Geraint a Mrs Sue Hughes, Peniel, er maent yn adnabod Llanarth a'r ardal yn dda iawn. Enillydd Gwobr Llenyddiaeth yr Ifanc oedd Elaine Roberts, Pentre'r Bryn, Synod Inn. Cafwyd beirniadaeth arbennig gan Mrs Dwynwen Teifi yn ystod y seremoni a gwerth yw darllen stori fer fuddugol Elaine. Enillydd Cwpan Her Teulu Caeralaw i'r llefarydd mwyaf addawol o dan 12 oedd Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig ac Alwena Mair Owen o Lanllwni, dderbyniodd Cwpan Her Teulu Brynalaw i'r unawdydd mwyaf addawol o dan 12. Cyflwynwyd cwpan her Isabel Jones er cof am ei rhieni, i'r perfformiad mwyaf cofiadwy yn y cystadlaethau dros 12 oed i Glesni Haf Morris, Llanddeiniol. Cafwyd araith arbennig a diddorol gan lywydd y dydd sef Valmai Davies, New Georgia, Llanarth a hithau yn cofio adrodd ar lwyfan eisteddfod Llanarth dros wythdeg mlynedd yn ôl. Diolch iddi am yr hanesion difyr a'i rhodd hael. Penderfynodd pwyllgor yr eisteddfod gynnal rhywbeth bach yn wahanol gyda'r hwyr eleni sef "Eisteddfod Hwyllog, Fywiog" a da i'w adrodd i'r arbrawf fod yn llwyddiant. Gydag Ifan Jones Evans wrth y llyw a'r neuadd yn llawn, bu cystadlu brwd rhwng tимоedd Ardal Llanarth, Ardal Mydroilyn a Gweddill y Byd. Cafodd Nerys Vobe ei "chadeirio" am ysgrifennu limrig bachog, a hwyllog a bywiog yn wir oedd y cystadlu yng nghystadlaethau'r unawd dan 5 a thros 80, band y gegin, dawnsio, stori a sain, siarad am funud ar y pwnc "olwyn" ac wrth gwrs, côr y pensiynwyr. Dyma oedd noson dda o gymdeithasu a mwynhau. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd eisteddfod Llanarth eleni eto ac edrychwn ymlaen at eisteddfod 2019!